

# Rheoleiddio gwasanaethau y telir amdanynt drwy'r ffôn yn y dyfodol


---

Ymgynghoriad ar Orchymyn arfaethedig  
Ofcom o dan a122 o Ddeddf Cyfathrebiadau  
2003 a newidiadau arfaethedig i'r Amod  
Gwasanaethau Cyfradd Premiwm

## Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 21 Tachwedd 2023

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 23 Ionawr 2024



# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
-------------------	---

# 1. Trosolwg

- 1.1 Gall defnyddwyr gyrchu amrywiaeth o wasanaethau rhyngweithiol trwy ei ffonau llinell dir a symudol, cyfrifiaduron a theledu digidol. Pan godir tâl am y gwasanaethau hyn trwy fil ffôn y cwsmer, maent yn cael eu galw'n wasanaethau y telir amdanynt drwy'r ffôn. Maent yn cynnwys rhoddion i elusennau drwy neges destun, ffrydio cerddoriaeth, cymryd rhan mewn cystadlaethau darlledu, ymholiadau'r llyfr ffôn, pleidleisio ar sioeau doniau ar y teledu a phrynu o fewn apiau. Cyfeirir at y gwasanaethau hynny yn gyffredin hefyd fel gwasanaethau cyfradd premiwm (premium rate services - PRS).
- 1.2 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), mae gan Ofcom arolygiaeth reoleiddiol dros is-set o PRS a elwir yn PRS a Reolir (Controlled PRS - CPRS). Mae'r rôl hon yn gweithio fel 'offeryn wrth gefn' statudol, y mae Ofcom yn cymeradwyo 'Cod' oddi tano'n gyntaf at ddibenion rheoleiddio CPRS. O dan y trefniadau rheoleiddio presennol, mae Ofcom wedi dynodi'r Awdurdod Gwasanaethau y telir Amdanynt drwy'r Ffôn (Phone-paid Services Authority - PSA), drwy gymeradwyo Cod, fel y corff sy'n rheoleiddio'r farchnad PRS o ddydd i ddydd. Yn y rôl honno, mae'r PSA yn rheoleiddio cynnwys, hyrwyddiad a gweithrediad cyffredinol CPRS trwy osod cyfrifoldebau a gofynion ar ddarparwyr PRS.
- 1.3 Teitl Cod presennol y PSA, sydd wedi bod mewn grym ers 5 Ebrill 2022, yw 'Cod Ymarfer 2021 (Pymthegfed Argraffiad)' (Cod 15).<sup>1</sup> Mae'r PSA hefyd wedi gwneud nifer o addasiadau dilynol i God 15. Yn ein rôl 'wrth gefn', mae gan Ofcom bwerau statudol i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau gan ddarparwyr PRS i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y PSA o dan God 15 drwy orfodi ein Hamod PRS (a osodir ar ddarparwyr gan Ofcom o dan adran 120 o'r Ddeddf).
- 1.4 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Ofcom a'r PSA - yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (sef DSIT)<sup>2</sup> - fod cyfrifoldeb rheoleiddio dros PRS yn debygol o drosglwyddo i Ofcom.<sup>3</sup>
- 1.5 Mae'r ddogfen ymgynghori hon bellach yn nodi ein cynigion, i bob pwrpas i drosglwyddo swyddogaethau rheoleiddio'r PSA i Ofcom, gan gynnwys newidiadau arfaethedig cysylltiedig i reoleiddio CPRS. O dan y cynigion hyn, bwriadwn dileu ein cymeradwyaeth o God 15 a'i disodli â'n set ein hunain o reolau mewn gorchymyn y bwriadwn ei wneud o dan adran 122 o'r Ddeddf (Gorchymyn PRS drafft). Pan ddaw'r Gorchymyn PRS i rym, bydd Ofcom yn cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd fel rheoleiddiwr a gorfodwr rheoleiddio PRS.

## Beth rydym yn ei gynnisig – yn gryno

Er mwyn gweithredu trosglwyddiad llyfn o PSA i Ofcom wrth reoleiddio PRS, rydym yn ymgynghori ar y mesurau canlynol:

- ein Gorchymyn PRS drafft, ar ffurf offeryn statudol (gweler Atodiad 5);

<sup>1</sup> Cymeradwywyd hyn gan Ofcom ar 20 Hydref 2021 o dan adran 121 o'r Ddeddf.

<sup>2</sup> Yn flaenorol, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (sef 'DCMS'). Sefydlwyd DSIT ar 7 Chwefror 2023 i gymathu rhai o swyddogaethau a chyfrifoldebau DCMS (ymhlith eraill).

<sup>3</sup> <https://www.ofcom.org.uk/cymru/news-centre/2022/ofcom-to-take-on-responsibility-for-regulating-phone-paid-services>

- ein haddasiadau arfaethedig i Amod PRS Ofcom (gweler Atodiad 9);
- ein cynnig i ddileu cymeradwyaeth o God 15 (gweler Atodiad 10);
- ein newidiadau arfaethedig i'n Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol (gweler Atodiadau 6 a 7).

Ein dull gweithredu arfaethedig gyffredinol ar gyfer ein Gorchymyn PRS drafft yw cadw egwyddorion a chanlyniadau allweddol y fframwaith rheoleiddio sydd mewn grym ar hyn o bryd ac a ddarperir gan y PSA drwy God 15 er mwyn cyflawni'r un canlyniadau yn fras ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid. Mae hyn oherwydd i ni asesu bod Cod 15 yn gweithio'n dda i raddau helaeth wrth alluogi rheoleiddio effeithiol sydd o fudd i ddefnyddwyr a diwydiant.

Yn benodol, rydym yn cynnig cadw llawer o'r egwyddorion a'r canlyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r safonau a'r gofynion rheoleiddio a nodir yng Nghod 15, gan gynnwys:

- safonau diogelu defnyddwyr ac, yn benodol, gofynion yn ymwneud â thryloywder, tegwch, gofal cwsmeriaid, defnyddwyr agored i niwed ac atal niwed a thramgwydd;
- safonau sefydliadol ac, yn benodol, gofynion yn ymwneud â chofrestru, diwydrwydd dyladwy, asesu a rheoli risgiau (DDRAC) a systemau; a
- chyfrifoldebau a rhwymedigaethau eraill, gan gynnwys cyllido, gofynion o ran gwybodaeth a chadw cofnodion.

Fodd bynnag, rydym yn cynnig gwneud rhai newidiadau, gan gynnwys:

- cadw rhai gofynion Cod 15 penodol ond eu symleiddio i adlewyrchu, er mewn iaith wahanol, effaith darpariaethau cyfatebol o God 15;
- newid rhai gofynion Cod 15 penodol er mwyn sicrhau cysondeb â dyletswyddau rheoleiddio ehangach Ofcom; a
- gosod gofynion newydd er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi, yn enwedig diogelu defnyddwyr rhag niwed sy'n gysylltiedig â PRS penodol, gan gynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu a Chyfeirio (ICSS).

Er y bydd ymgysylltu a gorfodi'n parhau i fod yn rhan allweddol o'n gweithgarwch rheoleiddio (fel y mae ar gyfer y PSA o dan God 15), rydym yn cynnig cymhwyso dull gorfodi presennol Ofcom i'r sector PRS.

Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno trefniadau trosiannol i sicrhau bod y farchnad PRS yn parhau i weithredu'n effeithiol tan y dyddiad trosglwyddo ac, yn benodol, nad oes unrhyw fylchau mewn rheoleiddio. Bydd y PSA yn parhau i fod yn gyfrifol am y drefn reoleiddio PRS, hyd nes y bydd y drefn yn trosglwyddo i Ofcom, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn rheoleiddio a gorfodi.

- 1.6 Rydym yn gwahodd safbwyntiau a sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion hyn erbyn **23 Ionawr 2024**. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu gwneud y Gorchymyn PRS (a'i osod gerbron Senedd y DU), a chyhoeddi ein datganiad terfynol, yng **Ngwanwyn 2024** neu'n fuan cyn neu ar ôl hynny.
- 1.7 Yn olaf, rydym yn cynnig cyfnod gweithredu o tua **3 mis** o ddyddiad gwneud y Gorchymyn PRS i alluogi aelodau diwydiant i wneud y paratodau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion newydd o dan y Gorchymyn PRS cyn iddo ddod i rym. Ar hyn o bryd rydym yn anelu at roi'r Gorchymyn PRS ar waith ar 1 Hydref 2024.